Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Hydref 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd yn nodi fel a ganlyn:

> *"The Planning and Infrastructure Bill ("the Bill") will speed up and streamline the delivery of new homes and critical infrastructure, supporting delivery of the government's Plan for Change milestones of building 1.5 million safe and decent homes in England and fast-tracking 150 planning decisions on major economic infrastructure projects by the end of this Parliament. It will also support delivery of the government's Clean Power 2030 target by ensuring that clean energy projects are built as quickly as possible."*[2]

**3.** Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> *"Make provision about infrastructure; to make provision about town and country planning; to make provision for a scheme, administered by Natural England, for a nature restoration levy payable by developers; to make provision about development corporations; to make provision about the compulsory purchase of land; to make provision about environmental outcomes reports; and for connected purposes."*[3]

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2025. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mehefin 2025, a chynhaliwyd yr ail ddarlleniad ar 25 Mehefin 2025. Dechreuodd y cyfnod pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025 a daeth i ben ar 17 Medi 2025. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd disgwyl i'r Cyfnod Adrodd ddechrau ar 20 Hydref 2025.

[1] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd (Bil 196) [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Cynllunio a Seilwaith, fel y'i cyflwynwyd

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.

**6.** Ar 26 Mawrth 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[4]

**7.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 28 Mai 2025.[5]

**8.** Nododd paragraffau 8 i 11 o'n hadroddiad cyntaf y darpariaethau yn y Bil roedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**9.** Nododd paragraffau 12 i 27 o'n hadroddiad cyntaf safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm.

**10.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a phedwar argymhelliad.

**11.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n hadroddiad cyntaf ar 9 Gorffennaf 2025.[6]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**12.** Ar 15 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[7]

---

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, 26 Mawrth 2025
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025
[6] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mai 2025

**13.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 2 (ein hail adroddiad) ar 18 Mehefin 2025.[8]

**14.** Mae paragraffau 13 i 21 o'n hail adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau'r Bil, a oedd, ar y pryd, yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd angen cydsyniad y Senedd, ac yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau diwygiedig.

**15.** Roedd ein hail adroddiad yn cynnwys dau gasgliad.

**16.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'n hail adroddiad ar 9 Gorffennaf 2025.[9]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**17.** Ar 17 Mehefin 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[10]

**18.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 (ein trydydd adroddiad) ar 23 Gorffennaf 2025.[11]

**19.** Mae paragraffau 19 i 28 o'n trydydd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau'r Bil, a oedd, ar y pryd, yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd angen cydsyniad y Senedd, ac yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau diwygiedig.

**20.** Roedd ein trydydd adroddiad yn cynnwys dau gasgliad a dau argymhelliad.

**21.** Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'n trydydd adroddiad ar 3 Medi 2025.[12]

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mehefin 2025
[9] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 9 Gorffennaf 2025
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Mehefin 2025
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Gorffennaf 2025
[12] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 3 Medi 2025

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru

**22.** Ar 7 Awst 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 4) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[13]

**23.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 17 Hydref 2025.[14]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**24.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil[15] gan Lywodraeth y DU ar 15 Gorffennaf 2025 yn ystod Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**25.** Ym mharagraff 7 o Femorandwm Rhif 4, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod ymgysylltu'n parhau ar lefelau Gweinidogol a swyddogion pan fo angen.

**26.** Ym mharagraffau 8 i 13 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi manylion y gwelliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan bod angen cydsyniad ar gyfer y canlynol:

- Gwelliant 359 y Llywodraeth sy'n diwygio cymal 110 (cymal 96 gynt ar gyflwyno) (Cychwyn a darpariaeth drosiannol);
- Gwelliant 56 y Llywodraeth sy'n diwygio cymal 46 (cymal 42 gynt ar gyflwyniad) (Ffioedd ar gyfer ceisiadau am orchmynion harbwr), ac sy'n ganlyniad i welliant 359.

**27.** Ym mharagraffau 14 a 15 o Femorandwm Rhif 4 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod llywodraethau Cymru a'r DU yn cytuno ynghylch y gwelliannau sy'n ymwneud â'r broses gydsyniad deddfwriaethol.

**28.** Ym Memorandwm Rhif 4 mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan fel a ganlyn:

---

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Awst 2025
[14] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith, Medi 2025
[15] Bil Tŷ'r Arglwyddi 110 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin)

*"Mae gwelliant 359 y Llywodraeth yn addasu cychwyn cymal 46 fel bod diddymu'r pwerau codi ffioedd presennol yn Neddf Harbyrau 1964 ddim ond yn cymryd effaith yng Nghymru pan fo'r rheoliadau ffioedd newydd, i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, yn dod i rym. Felly, mae cychwyn y pwerau codi ffioedd newydd yng Nghymru yn cael ei reoli gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, nid oes angen cymalau 46(6) a (7) mwyach ac effaith gwelliant 56 y Llywodraeth yw hepgor yr is adrannau hyn o'r Bil.*

*Er bod gwelliant 359 y Llywodraeth yn cyflwyno darpariaethau cychwyn gwahanol, mae'r effaith yn dal i olygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu codi ffi ar gyfer cais am Orchymyn Diwygio Harbwr o dan y drefn bresennol o dan Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964 hyd nes y byddant yn gwneud rheoliadau newydd, ac y daw'r rheoliadau hynny i rym."*[16]

**29.** Dyma gasgliad Ysgrifennydd y Cabinet:

*"Ystyrir bod y cynigion yn dderbyniol gan y byddent yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gadw pwerau i godi ffioedd ar gyfer ceisiadau Gorchymyn Harbwr o dan ddarpariaethau presennol yn Neddf Harbyrau 1964 hyd nes y byddant yn gwneud rheoliadau ffioedd newydd ac y daw'r rheoliadau hyn i rym.* (…)

*Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil hwn ar gyfer y DU."*[17]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**30.** Fe wnaethom ni drafod Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 15 Medi 2025.[18]

**31.** Fe wnaethom ystyried a chytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 22 Medi 2025.[19]

[16] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 12 ac 13
[17] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 16 ac 18
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Medi 2025
[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Medi 2025

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**32.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 4.

**33.** Rydym, hefyd, yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 4, o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### Materion sy'n peri pryder a godwyd yn ein hail a'n trydydd adroddiad

**34.** Yn ein hail adroddiad, nodwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth y DU am yr effeithiau ymarferol ar gyrff cyhoeddus Cymru a'r cyhoedd ei hun cyn gwneud argymhelliad ar gydsyniad mewn perthynas â dau ddiwygiad a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin; Gov NC44 a Gov NC45 yn ymwneud â cheisiadau am gydsyniad datblygu. Yn ein trydydd adroddiad, nodwyd nad yw Memorandwm Rhif 3 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn. Mae'n siomedig nad yw Memorandwm Rhif 4, unwaith eto, yn darparu diweddariad o'r fath.

**35.** Fel y nodwyd uchod ym mhennod 1 o'r adroddiad hwn, roedd ein trydydd adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad yn ymwneud â phwerau dirprwyedig yn y Bil (argymhelliad 1), a'r modd y mae'r Bil yn rhyngweithio â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydgrynhoi cyfraith gynllunio yng Nghymru (argymhelliad 2). Fel y nodwn uchod, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'n trydydd adroddiad ar 3 Medi.

**36.** Roedd Arhymhelliad 1 yn ein trydydd adroddiad yn gofyn i Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a ofynnodd Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU gynnwys darpariaeth yn y Bil a fyddai'n trosglwyddo i Weinidogion Cymru y pwerau gwneud rheolau a rheoliadau a roddir gan *Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992* i alluogi'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 34 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 38 bellach) i gael ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru weithredu mewn meysydd datganoledig.

**37.** Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad oedd Llywodraeth y DU wedi ceisio dirprwyo'r pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion

Cymru.[20] Rydym yn dod i'r casgliad nad yw'r ymateb hwn yn mynd i'r afael â'n hargymhelliad, ac mae hyn yn destun gofid.

**38.** Roedd Argymhelliad 2 yn ein trydydd adroddiad yn ceisio eglurder gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch goblygiadau'r Bil i gynigion Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi cyfraith gynllunio fel y mae'n gymwys yng Nghymru, ac amserlennu'r ymarfer hwnnw. Fe wnaethom amlygu mai ni fyddai'r pwyllgor cyfrifol am gynnal gwaith craffu ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol), a gyflwynwyd i'r Senedd ar 15 Medi[21], a'n bod yn ymwybodol y bydd angen cynnal cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, y cyfeiriwyd ato gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Ionawr 2026.

**39.** O'r herwydd, ac o ystyried nad yw Ysgrifennydd y Cabinet yn rheoli hynt y Bil drwy Senedd y DU, gofynnwyd am eglurder ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymdrin â sefyllfa lle nad yw testun terfynol y Bil wedi'i gymeradwyo gan Senedd y DU erbyn i Filiau Cydgrynhoi cynllunio Llywodraeth Cymru gyrraedd cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn y Senedd.

**40.** Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"Yn seiliedig ar ddatblygiad presennol y Bil Cynllunio a Seilwaith drwy'r Senedd, rydym yn parhau i ragweld na fydd problem gydag amseriadau'r Biliau. Fodd bynnag, pe bai hyn yn digwydd a bod angen gwelliannau i'r Bil Cynllunio (Cymru) neu'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), mae tair ffordd bosibl y gellid delio â hyn: yn gyntaf, drwy ddefnyddio Cam Ystyriaeth Fanwl y Senedd y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i amserlennu'n ddiweddar; yn ail, gan Senedd y DU sy'n diwygio ei Bil; yn drydydd, defnyddio pŵer arfaethedig o fewn y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) sy'n galluogi gwneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â'r brif Ddeddf ac felly yn galluogi gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol o'r Bil Cynllunio a Seilwaith." Byddai'r defnydd o'r pŵer wrth gwrs yn amodol ar y Bil yn cael ei basio gan y Senedd."*[22]

[20] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 3 Medi 2025
[21] Deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi cyfraith cynllunio yng Nghymru - Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)
[22] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 3 Medi 2025